

Cwm Creigiog ©Ystâd Piper / DACS 2015

# John Piper

## Mynyddoedd Cymru

### Adnodd Addysg

Supported by The National Lottery® through the Heritage Lottery Fund
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri

AMGUEDDFA CYMRU

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


Cyflwyniad 2

Bywyd John Piper

- John Piper a gogledd Cymru 3
- Dulliau a Thechneg 4

Siarad am Dirluniau

- Tirluniau 6
- Tirluniau John Piper 8
- Trafod Cwm Creigiog 12
- Trafod Fferm Nant Ffrancon 15

Syniadau ymarferol wedi'u sbarduno gan dirluniau John Piper

- Mewn Oriel 17
- Yn yr Ysgol 19

# Cyflwyniad

Cynlluniwyd yr adnodd dysgu hwn i gefnogi athrawon ac addysgwyr eraill sydd am i'w disgyblion ymgysylltu â gwaith yr artist John Piper (1903-1992), yn enwedig ei baentiadau a darluniau o fynyddoedd gogledd Cymru.

Bu mynyddoedd gogledd Cymru yn ysbrydoliaeth i Piper o ddechrau'r 1940au tan ganol y 1950au, ac bu'n rhentu dau fwthyn yn Eryri yn ystod y cyfnod. Byddai'r bythynnod yn ganolbwynt i'w deithiau drwy'r dirwedd yn cofnodi siapau, ffurfiau lled-haniaethol, gweadau a lliwiau cyfoethog y mynyddoedd.

Yn 2014, prynodd Amgueddfa Cymru gasgliad o weithiau Piper gan unigolyn â chysylltiadau â Chymru, diolch i gefnogaeth hael Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ymddiriedolaeth Derek Williams a'r Gronfa Gelf.

Adnodd preifat yw'r pecyn hwn at ddibenion addysgiadol yn unig. I'r perwyl hyn, dim ond yn fewnol y ceir defnyddio'r delweddau yn y pecyn ac ni chaniateir eu copïo, eu dosbarthu, na'u defnyddio at unrhyw ddibenion eraill heb geisio caniatâd priodol ymlaen llaw.

## Cyswllt Cwricwlwm

Mae'r casgliad hwn o baentiadau yn berthnasol i brojectau celf, dylunio a daearyddiaeth gyda digonedd o gyfleon i ddatblygu sgiliau llythrennedd a chyswllt i'r Cwricwlwm Cymreig. Mae'r gweithgareddau wedi eu targedu at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a 3, ond gellir eu haddasu ar gyfer disgyblion hŷn.

# Bywyd John Piper

## Llinell Amser

**1903** Ganwyd yn Epsom, Surrey. Pan yn blentyn, byddai'n crwydro'i filltir sgwâr yn creu cofnodion ac ysgrifennu teithlyfrau.

**1919** Treulio blynyddoedd anhapus yng Ngholeg Epsom.

**1922** Gadael y coleg â'i fryd ar fynd yn artist. Ei dad yn mynnu ei fod yn ymuno â busnes cyfreithiol y teulu.

**1925** Ei dad yn cynnig prentisiaeth ym myd y gyfraith yng nghwmni'r teulu, ond John yn gwrthod. Mynd i astudio celf yng Ngholeg Cymunedol Richmond i Oedolion.

**1928** Dechrau yn y Coleg Celf Brenhinol

**1930s** Piper yn cyfrannu at sawl project. Roedd yn ysgrifennu adolygiadau celf a cherddoriaeth, ac yn creu cyfres o ddarluniau o gapeli Cymreig. Gweithiodd hefyd ar Shell Guides, cyfres boblogaidd o dywyslyfrau poblogaidd drwy siroedd Prydain. Roedd ei arddangosfeydd cyntaf o baentiadau haniaethol, tirluniau collage ac adfeilion yn llwyddiant mawr. Mae hefyd yn cyfarfod Myfanwy Evans, ei ail wraig.

**1940** Piper yn cael ei benodi yn Artist Rhyfel swyddogol.

**Neo ramantiaeth Brydeinig, diwedd y 1930au a'r 1940au** Term a ddefnyddiwyd i ddisgrifio Piper ac artistiaid eraill oedd yn paentio tirwedd Prydain mewn ffordd newydd. Roedd pobl yn ystyried yr arddull yn ymateb emosiynol i'r dirwedd, ac yn adlewyrchiad o'r oes.

**1940** Piper yn derbyn comisiwn i gofnodi dinasoedd wedi'i dinistrio gan y Blitz, ac yn dechrau ei waith ym Mryste a Coventry.

**1943** Piper yn derbyn comisiwn gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Artistiaid Rhyfel i gofnodi'r ogof a gloddiwyd gan ddyn yn Chwarel Manod, Blaenau Ffestiniog, oedd yn cael ei defnyddio i storio gwaith o'r Oriel Genedlaethol a'r Casgliad Brenhinol yn ystod y Blitz.

## John Piper a gogledd Cymru

Un o dde Lloegr oedd Piper ond ganwyd ei ail wraig, Myfanwy Evans, yn Llundain i rieni o Gymru. Roedd y Pipers wedi ymweld â de Cymru o'r blaen ond ym 1939 dyma nhw'n aros ym Mhontrhydfendigaid, Ceredigion, er mwyn iddo ddarlunio tŷ Hafod. Tra oedd yno, fe deithiodd yn ddyfnach i'r canolbarth i weld llefydd y darllenodd amdanynt yn *The Lakes of Wales* gan Herbert Jenkins. Cymharodd Piper rai o'r golygfeydd â phaentiadau hanesyddol Edward Pugh yn y tywyslyfr llawn lluniau o 1816, *Cambria Depicta*. Digwyddodd hyn i gyd yn ystod haf 1939 gyda phawb yn ofni'r rhyfel ar y gorwel.

Ym mis Tachwedd 1940 penodwyd Piper yn Artist Rhyfel swyddogol. Derbyniodd ei gomisiwn cyntaf i gofnodi dinasoedd wedi'u dinistrio gan y Blitz, gan ddechrau yn Coventry cyn symud i Fryste. Er i'r comisiwn ei dynnu o Gymru, comisiwn rhyfel arall a'i tynnodd yn ôl i Gymru hefyd, y tro hwn i galon Eryri.

Ym 1943 derbyniodd gomisiwn i gofnodi ogof ym Mynydd Manod Mawr, ogof a grëwyd gan ddyn oedd bellach yn cael ei defnyddio i storio gweithiau yr Oriel Genedlaethol a'r Casgliad Brenhinol dros y rhyfel. Methiant fu'r comisiwn – roedd hi'n amhosibl darlunio yn yr ogof – ond manteisiodd Piper ar y cyfle i grwydro'r ardal gan ddilyn tywyslyfr *Travellers Guide to North Wales* gan Murray.

Ar ddiwedd y comisiwn, penderfynodd Piper aros gyhyd â phosibl yng Ngogledd Cymru i baentio. Dychwelodd i ogledd Cymru gyda'i deulu, yn ystod blynyddoedd hir yr Ail Ryfel Byd ac wedi hynny, gan rentu llety ym mynyddoedd anghysbell Eryri. Dim ond yn y gaeaf oedd un ffermdy penodol ar gael, Bodesi yn Nyffryn Ogwen, lleoliad unig iawn.

Roedd yr unigedd yn apelio at Piper oherwydd gallai dreulio diwrnodau cyfan yn gweithio ar ei ben ei hun yn llwyr. Cynhyrchodd gyfres o brintiau, darluniau a phaentiadau a dyfodd yn archwiliad graffig o'r mynyddoedd. Mae'r delweddau tywyll, hynod emosiynol a greodd yn cael eu cyfri ymhlith ei waith gorau.

## Dulliau a Thechnegau

- Nid paentiadau oedd mwyafrif ei waith, ond darluniau a ddechreuodd yn yr awyr agored gydag inc, pen a brws mewn llyfr braslunio.
- Dyma Piper yn chwyddo rhai gan gyfuno dyfrlliw, gouache, sialc ac inc gan ddefnyddio pen, brws, sbwng a'i fysedd ei hun.
- Os oedd yn gweithio mewn lleoliad hawdd ei gyrraedd byddai weithiau'n creu darlun maint llawn yn syth, ond mae'n debyg y byddai'n creu'r rhan fwyaf o'i ddarluniau mawr mewn stiwdio.
- Dim ond rhai o'i ddarluniau oedd yn sail i'w baentiadau olew mawr.
- Roedd Piper wrth ei fodd â mapiau a thywyslyfrau. Fe ddysgodd am enwau llefydd a'u hanes daearegol, a chymharu yr olygfa o'i flaen â gwaith artistiaid y gorffennol.
- Byddai Piper, ei wraig a'i ddau blentyn hynaf, yn aros mewn bythynnod lleol am wythnos neu bythefnos, ac weithiau ym gyfnodau hirach.
- Ar ôl gadael y tŷ yn y bore byddai Piper ar ei ben ei hun drwy'r dydd, ac yn aml yn dringo hyd at 3000tr. Nid yw'r mynyddoedd yn anodd i'w dringo, ond mae nhw'n uchel, a doedd dim cymaint o lwybrau â heddiw.
- Roedd gweithio yn uchel yn y mynyddoedd yn anodd – yn y gwynt a'r glaw. Roedd hi'n aml mor wlyb nes crychu'r papur, mor oer bod y dyfrlliw'n rhewi ac yn rhy oer i sefyll yn llonydd – ac roedd e wastad ar ei ben ei hun.
- Does dim un o'r darluniau yn edrych fel eu bod wedi eu creu ar ddiwrnod braf – mae'r awyr ym mhob un yn llwyd brych.

# Paratoi i ymweld ag oriel

Cyn ymweld gallech chi helpu'r disgyblion i ymgyfarwyddo â detholiad o baentiadau a delweddau o'r dirwedd.

Daw'r gweithiau canlynol o gasgliad yr Amgueddfa a gellir eu canfod yn

www.amgueddfacymru.ac.uk/celf/arlein/

Richard Wilson – Castell Dolbadarn, 1760s

Thomas Jones – Y Bardd, 1774

Thomas Jones – Adeiladau yn Napoli, 1782

John Brett – Traeth Fforest, Bae Ceredigion 1883

Edrychwch ar destun y llun a'r gwahanol elfennau, fel y defnydd o liw, llinell a gwead. Meddyliwch am brif ddiddordeb yr artist a'i fwriad wrth greu'r paentiadau.

Roedd gwaith John Piper yn anarferol. Fe beintiodd olygfeydd dramatig, gan ganolbwyntio ar adfeilion, cerrig a mynyddoedd yn ei gyfres ar fynyddoedd gogledd Cymru.

# Siarad am Dirluniau



## Traeth Fforest, Bae Ceredigion

John Brett

1883 | Olew ar gynfas



## Adeiladau yn Napoli

Thomas Jones

1774 | Olew ar gynfas

Gofynnwch gwestiynau i annog y disgyblion i edrych yn fanwl. Dechreuwch gyda chwestiynau syml, cyn holi'n ddyfnach.

### Cynnwys

Beth allwch chi ei weld yn y paentiad hwn?

Beth yw'r peth cyntaf sy'n tynnu eich sylw am y paentiad hwn?

Beth yw'r enw ar baentiad fel hwn?

Beth sydd yn y blaendir, y canol a'r cefndir?

Pam wnaeth yr artist ddewis paentio o'r fan hon?

Oes unrhyw bobl yn y paentiad?

os na, pam?
os oes, beth maen nhw'n ei wneud?

### Tywydd

Disgrifiwch y tywydd yn y paentiad.

Pa gliwiau sy'n dangos y tywydd yn y paentiad?

Pa amser o'r flwyddyn yw hi? Sut ydych chi'n gwybod?

Pam ddewisodd yr artist beintio'r dirwedd yn y tywydd hwn?



## Castell Dolbadarn

Richard Wilson

1760au | Olew ar gynfas



## Y Bardd

Thomas Jones

1774 | Olew ar gynfas

### Proses

Ydy'r artist wedi creu'r tirlun yn y fan a'r lle?

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Os na, yw'r cyfan yn dod o ddychymyg yr artist?

Os do, wnaeth yr artist baentio'r cyfan ar unwaith, neu deithio yn ôl a mlaen?

Allai'r artist fod wedi gweithio mewn ffordd arall?

Ble ddechreuodd yr artist ar y paentiad?

Wnaeth y gwaith gymryd llawer o amser?

Edrychwch ar arwyneb y paentiad.

Yw'r arwyneb yn llyfn neu'n arw?

Sut mae hyn effeithio ar olwg y paentiad?

Pa fath o offer a deunyddiau ddefnyddiodd yr artist?

### Awyrgylch

Sut mae'r paentiad yn gwneud i chi deimlo?

Meddyliwch am un gair sy'n disgrifio sut ydych chi'n teimlo wrth edrych ar y paentiad.

Pam mae'r paentiad yn gwneud i chi deimlo fel hyn?

# Siarad am Dirluniau John Piper



Creigiau yng Nghapel Curig ©Ystâd Piper / DACS 2015

## Creigiau yng Nghapel Curig

1950 | Inc, dyfrlliw a gouache, 55.9x73.7cm

Ewch i oriel yn llawn lluniau John Piper a cherdded o amgylch yn edrych ar bob un. Os ydych chi yn y dosbarth, gallech chi ddangos cyfres ddigidol o luniau John Piper.

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl –

Beth alla i ei weld?

Paentiadau o beth ydyn nhw?

Pa liwiau, siapau a gweadau alla i eu gweld?

Ar ôl casglu'r dosbarth ynghyd, trafodwch beth welon nhw a'r pethau a dynnodd eu sylw.



Bethesda ©Ystâd Piper / DACS 2015

## Bethesda

1945 | Inc a dyfrlliw, 21.6 x24.1cm

### Cynnwys

Doedd Piper ddim yn paentio gwahanol bethau mewn ffordd wahanol. Byddai'n paentio adfeilion, mynyddoedd a cherrig gyda'r un gofal â chastell Windsor.

Pam wnaeth Piper baentio cymaint o gerrig a mynyddoedd?

Ydyn nhw'n realistig?

Yw hi'n hawdd gweld beth sydd yn y paentiadau?

Beth sy'n ei gwneud hi'n hawdd neu'n anodd gweld beth sydd yn y paentiadau?

Pam oedd Piper yn paentio fel hyn?

### Tywydd

Roedd Piper yn paentio yn yr awyr agored ym mhob tywydd. Byddai'n darlunio ac yn paentio ar ei ben ei hun am ddiwrnodau cyfan, a gallai'r tywydd newid yn sydyn iawn.

Edrychwch ar y paentiadau. Pa amser o'r flwyddyn oedd hi?

Sut ydych chi'n gwybod?

Pam wnaeth e baentio yn y tywydd hwn?

Pa heriau fyddai Piper wedi eu hwynebu?



Twll Du ©Ystâd Piper / DACS 2015

# Twll Du

1946-7 | Inc, dyfrlliw a siarcol ar bapur, 54.4 x 68.7cm

## Proses

Roedd John Piper yn darlunio a phaentio yn y fan a'r lle ar ei ben ei hun, ac weithiau mewn tywydd ofnadwy. Weithiau, byddai'n defnyddio'r gweithiau yma yn ei stiwdio i greu gweithiau llawer mwy.

Wnaeth Piper baentio pob un o'r rhain yn y fan a'r lle?

Pa rai sy'n edrych fel eu bod wedi'u paentio yn y fan a'r lle, a pha rai sydd ddim?

Sut ydych chi'n gwybod?

Allwch chi weld nifer o weadau gwahanol yn ei baentiadau? Sut wnaeth Piper greu y gwahanol weadau?



Tarddle'r Ddyfi ©Ystâd Piper / DACS 2015

# Tarddle'r Ddyfi

1943-4 | Olew ar gynfas geso wedi'i osod ar fwrdd, 69.3 x 87cm

## Awyrgylch

Dechreuodd John Piper baentio mynyddoedd gogledd Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae pobl yn dweud eu bod nhw'n adlewyrchu ofn ac anobaith y blynyddoedd yma.

Edrychwch ar y paentiadau. Defnyddiwch un gair i ddisgrifio sut mae nhw'n gwneud i chi deimlo?

Sut wnaeth John Piper greu yr awyrgylch yn ei baentiadau?

Yw testun y paentiadau, neu y dull o baentio, wedi cyfrannu at awyrgylch y paentiad?

# Cwm Creigiog

1948 | Olew ar gynfas ar fwrdd, 91.4 x 121.9cm



Cwm Creigiog©Ystâd Piper / DACS 2015

## Siarad am Cwm Creigiog

Dyma un o weithiau mwyaf haniaethol John Piper. Ceisiwch annog y disgyblion i ddefnyddio eu dychymyg wrth edrych ar y paentiad ac ymateb iddo. Canolbwyntiwch ar elfennau gweledol fel lliwiau, siapau a gwead.

### Dychmygwch

Beth allwch chi ei weld yma?

Beth yw testun y paentiad?

Sut ydych chi'n gwbod?

Oes rhywbeth yn y paentiad allwch chi ddim ei weld?

Pam fyddai Piper yn cuddio rhywbeth?

Wrth guddio rhywbeth, yw Piper yn ceisio datgelu rhywbeth arall?

### Lliw

Disgrifiwch y lliwiau welwch chi.
Pa un yw'r rhannau tywylla a goleua?
Pam fod Piper wedi paentio lliwiau mor dywyll a mor olau?
Mae darnau o goch tywyll yn y blaendir – beth yw'r marciau yma ys gwn i?
Yw'r coch a'r brown yn y blaendir mor dywyll â'r du a'r glas yn y cefndir?

### Siapau

Allwch chi weld unrhyw siapiau?
    Beth mae nhw'n ei gynrychioli
Allwch chi weld unrhyw farciau eraill?
    Beth yw'r marciau yma?

### Gwead

Byddai Piper yn paentio ar arwyneb caled, ychydig yn arw, cyn adeiladu haenau geso (past gwyn trwchus i baratoi arwyneb paentiad) a phaent, gan grafu i'r paent wedyn i greu gwead arall. Os ydych chi mewn oriel, gofynnwch i'r disgyblion edrych yn ofalus ar arwyneb y paentiadau.

Pa ansoddeiriau fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r gweadau? e.e. llyfn / garw / anwastad.

Pa fath o offer fyddai Piper yn eu defnyddio i wneud y marciau yma?

Dewiswch un rhan o'r paentiad. E.e. mae rhai craciau ar yr arwyneb – ai Piper greodd rhain neu amser?

# Cymharu

Cafodd y llun hwn – *Pen Uchaf Bwlch Nant Ffrancon, Tryfan, Eryri* – ei greu ym 1947, flwyddyn cyn *Cwm Creigiog*. Mae'n dangos yr un tirlun, o'r un lleoliad mwy na thebyg.



Pen Uchaf Blwch Nant Ffrancon, Tryfan, Eryri ©Ystâd Piper / DACS 2015

# Pen Uchaf Bwlch Nant Ffrancon, Tryfan, Eryri

1947 | Inc, sialc a dyfrlliw, 53.4 x 66.1cm

Ydych chi'n credu bod y ddwy olygfa wedi cael eu paentio o'r un lleoliad?

Sut ydych chi'n gwybod?

Beth sy'n debyg ac yn wahanol?

Yw Piper wedi cynnwys rhywbeth yn y llun hwn … sydd ddim yn *Cwm Creigiog*?

Pam wnaeth e hynny?

## Siapau

Pa baentiad sydd â'r mwyaf o siapau ynddo?

Pam fod mwy o siapau yn un o'r paentiadau?

Sut mae'r siapau'n wahanol?

## Lliw

Edrychwch ar *Pen Uchaf Bwlch Nant Ffrancon, Tryfan, Eryri*

Pam ddewisodd Piper y lliwiau yma?

Ai dyma'r lliwiau go iawn oedd Piper yn eu gweld, neu ai lliwiau ei ddychymyg ydyn nhw?

Os taw o'i ddychymyg mae'r lliwiau, pam ddewisodd e'r lliwiau?

Yw'r lliwiau yma'n cyfleu teimladau?

Os taw dyma'r lliwiau oedd Piper yn eu cofio, ydy e wedi 'gorliwio'?

## Gwead

Pa baentiad sydd fwyaf gweadog?

Pam fod un yn fwy gweadog na'r llall?

Oherwydd ei deimladau?

Oherwydd y deunyddiau?

Cyfuniad o'r ddau?

Pa un o'r ddau yw eich ffefryn? Pam?

# Fferm Nant Ffrancon

1950 | Cyfrwng cymysg ar bapur, 36 x 53.5cm



Fferm Nant Ffrancon © Ystâd Piper / DACS 2015

## Trafod Fferm Nant Ffrancon

Arhosodd John Piper a'i deulu yn y ffermdy hwn ym 1945-6. Roedd y ffermdy mewn man anghysbell iawn ac yn esiampl dda o sut y byddai Piper yn ymgolli yn y dirwedd.

Yn wahanol i *Cwm Creigiog* gallwn ni adnabod yr olygfa hon yn syth. Defnyddiwch bwyntiau cychwyn gwahanol er mwyn gweithio gyda'r disgyblion i adeiladu stori o amgylch y paentiad.

### Testun

Beth yw canolbwynt y paentiad hwn?

Pa ran o'r paentiad wnaeth Piper dreulio y mwyaf o amser yn ei baentio?

Pam wnaeth e dreulio cymaint o amser ar y rhan honno?

Oes rhan o'r paentiad sydd heb fawr ddim manylion?

### Tywydd

Pa fath o ddiwrnod oedd hi?

Oedd hi'n wlyb? Yn wyntog? Yn bwrw eira?

Sut mae Piper wedi cyfleu y tywydd?

Ar ôl trafod y testun a'r tywydd dechreuwch adeiladu darlun o'r byd yr oedd Piper yn byw ac yn gweithio ynddo.

Pam oedd John Piper am aros yn y ffermdy yma?

Fyddai Piper a'i deulu wedi mwynhau byw yma?

Oedd e'n chwilio am brofiad mwy nag y gallai ei gael wrth ymweld am ddiwrnod yn unig?

Pa fath o bethau fyddai Piper wedi gweld wrth aros yno am fyw na diwrnod?



## Fferm Nant Ffrancon

**2004**

Dyma ffotograff o’r ffermdy ym mhaentiad John Piper.
Tynnwyd y llun 60 mlynedd ar ôl y paentiad.

Beth sydd i’w weld yn y paentiad ac yn y ffotograff?

Sut mae nhw’n wahanol?

Roedd yn byw yno gyda’i deulu – oedd hi’n anodd cyrraedd y ffermdy? Pam?

Sut brofiad fyddai aros yno?

# Syniadau ymarferol wedi'u sbarduno gan dirluniau John Piper – Mewn Oriel

Pan yn ymweld ag oriel, mae paratoi ymlaen llaw yn beth da, os yn bosibl. Fel athro, gallwch chi weld potensial arddangosfa i ategu sawl rhan o'r cwricwlwm neu gynllun gwaith.

Gall y syniadau canlynol helpu eich disgyblion i ymgysylltu â gwaith John Piper, a gallant gael eu haddasu ar gyfer arddangosfeydd eraill.

## Golwg Fanwl

Dewiswch ddetholiad o baentiadau y byddwch chi'n eu gweld yn ystod eich ymweliad ac argraffu copïau ohonynt. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhoi copi o ddarn o baentiad i bob grŵp. Gallwch chi gynnal trafodaeth cyn ymweld ar beth allan nhw ei weld yn y darnau gwahanol. Y sialens yn yr oriel fydd canfod y paentiad sy'n cyfateb i'w darn nhw.

Does dim ots os ydyn nhw'n canfod y paentiad cywir neu beidio. Canolbwynt y drafodaeth fydd sut a pham wnaethon nhw ddod i benderfyniad. Gall pob grŵp esbonio pam eu bod nhw'n meddwl bod eu darn nhw yn ddarn o baentiad penodol.

## Disgrifiadau

Gall disgrifiadau fod yn ffordd dda i'r disgyblion edrych yn fanwl ar y paentiadau. Mae'r brawddegau canlynol yn disgrifio gwahanol baentiadau gan Piper o fynyddoedd Cymru.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, rhoi brawddeg i bob grŵp a gofyn iddyn nhw adnabod y paentiadau o'r disgrifiadau.

-Pwll tywyll gyda mynyddoedd yn codi uwch ei ben fel cewri mawr. (Tarddle'r Ddyfi)

-Mynyddoedd glas gyda golau gwyn yn sgleinio ar arwyneb y graig a'r pridd coch islaw. (Cwm Creigiog)

-Siapau fel esgyrn yn ymddangos o'r ddaear gan ddod yn ganolbwynt y tirwedd. (ffurfiant Creigiau)

-Pridd fflamgoch o amgylch cerrig crwm dan awyr dywyll, gymylog. (Creigiau yng Nghapel Curig)

-Cymylau gwyn, ysgafn yn yr awyr dywyll uwchben dwy garreg fawr. (Creigiau, Tryfan)

-Mae tywyllwch yn lledu dros arwyneb creigiog y tir wrth i'r haul dywynnu. (Mynydd Tryfan)

-Rhes o dai sy'n diflannu fesul un i'r tirwedd dwrllyd. (Bethesda)

-Craig fawr serth yn sefyll uwchben cwlwm o goch, melyn a gwyn. (Creigiau Garw dan Fynydd Tryfan)

-Llinellau tenau, du yn dangos creigiau yn y tirlun aneglur. (Creigiau Pell ac Agos, Tryfan)

-Llinellau a fflachiadau golau yn dangos y dyffryn a'r cymylau uwchben. (Ffynnon Lloer)

# Cymharu

- Dewiswch ddau baentiad i'r disgyblion eu cymharu.



Tarddle'r Ddyfi ©Ystâd Piper / DACS 2015



Creigiau yng Nghapel Curig ©Ystâd Piper / DACS 2015




Twll Du ©Ystâd Piper / DACS 2015



Fferm Nant Ffrancon © Ystâd Piper / DACS 2015

-Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol.

-Gallan nhw nodi eu sylwadau ar y diagram hwn.




-Casglwch y grwpiau at eu gilydd i adrodd eu sylwadau.

-Gofynnwch i unigolion ddweud beth sy'n debyg am y gweithiau, a beth sy'n wahanol.

# Syniadau ymarferol wedi'u sbarduno gan dirluniau John Piper – Yn yr Ysgol

## Darlunio

Roedd John Piper yn treulio amser hir yn yr awyr agored yn darlunio a phaentio, cyn mynd yn ôl i'r stiwdio i greu gwaith gorffenedig. Lluniwyd y gweithgaredd hwn i helpu'r disgyblion i ddeall y broses hon. Mae dwy ran i'r gweithgaredd. Does dim rhaid cwblhau un ar ôl y llall.



Marciau gyda phinnau graffit



### Darlunio 'yn yr fan a'r lle'

Gweithgaredd cyflym, llawn hwyl, fydd yn herio'r disgyblion i weithio'n **gyflym.**

- Gadewch y dosbarth. Mae'n gweithio orau os ydych chi'n mynd am dro.

- Bydd angen clipfwrdd a dau ddarn o bapur ar bob disgybl.

Rhannwch un o'r papurau yn chwarteri. Dyma'r papur fydd yn cael ei ddefnyddio gyntaf.

- Esboniwch y byddwch chi'n mynd am dro cyn gweiddi 'STOP' ar unrhyw bryd.

- Bydd gan y disgyblion un funud i dynnu llun o bopeth sydd ar y llawr o'u blaen yn un o'r chwarteri. Dywedwch wrthyn nhw i lenwi'r chwarter.

- Cerddwch ymlaen ac ailadrodd y broses dair gwaith. Yr ail dro, gofynnwch iddyn nhw dynnu llun o bopeth sydd i weld wrth edrych i fyny. Y trydydd tro byddan nhw'n tynnu llun popeth ymhell o'u blaen. Y pedwerydd tro byddan nhw'n tynnu llun rhywbeth sy'n agos iawn. Dim ond un funud fydd ganddyn nhw cyn symud ymlaen bob tro.

- Gwnewch y gweithgaredd eto, ond gan ddefnyddio'r papur mwy a rhoi 4 munud i'r disgyblion dynnu llun.

- Gallan nhw dynnu llun unrhywbeth y tro hwn.

- Heriwch nhw i ddefnyddio cymaint o egni â phosibl i lenwi'r papur. Gallan nhw symud o gwmpas wrth dynnu llun.

- Deunyddiau: pensiliau, pinnau graffit (os ar gael), creonau, papur a clipfyrddau.



## Tynnu Llun o’r Cof a’r Dychymyg

Yn ôl yn y dosbarth, gofynnwch i’r dysgwyr ddefnyddio’u darluniau fel ysbrydoliaeth ar gyfer darn newydd o waith, un mwy a lliwgar.

- Gallan nhw gopïo eu brasluniau, neu ddefnyddio eu cof a’u dychymyg.

- Eich dewis chi yw pa ddeunyddiau i’w darparu, a faint o amser i roi i’r dosbarth. Beth am roi her iddyn nhw orffen mewn amser penodol.

- Pan fyddan nhw wedi gorffen, gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio eu gwaith a siarad am y broses o greu a’r ysbrydoliaeth.






# Collage


Lluniwyd y gweithgaredd hwn i helpu eich disgyblion i ddeall haniaethu yn well. Allwn ni ddim adnabod y testun yn syth gyda chelf haniaethol, ac mae fel arfer yn drefniant o siapau, lliwiau a gwead.

Artist haniaethol oedd Piper ar ddechrau ei yrfa ond roedd wedi symud ymlaen at waith mwy cynrychioliadol erbyn diwedd y 1930au.

Gall rhai o baentiadau a darluniau John Piper o fynyddoedd gogledd Cymru edrych yn eithaf haniaethol ar yr olwg gyntaf, ond wrth edrych yn fanwl, gallwn ni weld elfennau o'r tirwedd. Wrth eu cymharu gyda ffotograffau o'r tirweddau a ysbrydolodd Piper gallwn ni weld ei fod yn aml yn cofnodi'r creigiau a'r mynyddoedd yn fanwl iawn.




Fferm Nant Ffrancon © Ystâd Piper / DACS 2015




## Dechrau'r Collage...

-Dosbarthwch ffotograffau o wahanol dirweddau, papur gwyn plaen, glud a bag o bapurau cymysg fel: papur sidan, papur lliw, papur newydd, hen amlenni, papur wedi paentio ac ati....


Offer...








Deunyddiau...



Hen amleni



Hen luniau

Papurau newydd






Papurau gwahanol

- Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r deunyddiau yma i ddehongli neu gopio'r tirwedd.

- Ni chaiff y disgyblion ddefnyddio pensil, pen, paent neu siswrn – bydd hyn yn eu gorfodi i feddwl am ffyrdd gwahanol o ddehongli siâp gwead, llinell a lliw.

- Gallan nhw ddefnyddio'u dychymyg hefyd, i wneud eu collage yn fwy haniaethol.


-Gall hwn fod yn weithgaredd i unigolion neu grwpiau o dri.

- Os taw gweithgaredd grŵp yw hwn, darparwch ddarn mwy o bapur plaen fel bod digon o le i bawb weithio.





## Creu gweadau gyda phapur



# Creu Tywyslyfr

Drwy greu eu tywyslyfrau eu hunain bydd y disgyblion yn dod i ddeall sut oedd Piper yn gweld y dirwedd. Gall hefyd fod yn ffordd dda i blant a phobl ifanc gyfuno gweithiau o rannau eraill y cwricwlwm mewn un corff o waith.

### Tywyslyfrau Piper

Roedd Piper wrth ei ffodd â thywyslyfrau erioed – eu darllen a'u creu. Ar ôl treulio ei blentyndod yn creu tywyslyfrau o'i filltir sgwâr, does dim syndod iddo dderbyn cais yn gynnar yn ei yrfa gan y bardd, John Betjeman, i ysgrifennu a darlunio'r *Shell Guide to Oxfordshire.* Dyma nhw'n wedyn yn cydweithio i greu *The Shell Guide to Shropshire.*

Daeth Piper i ogledd Cymru yn wreiddiol i gofnodi ogof chwarel Manod Mawr ger Blaenau Ffestiniog. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd paentiadau o'r Oriel Genedlaethol yn cael eu cadw yno'n ddiogel. Methiant fu'r comisiwn – roedd hi'n amhosibl darlunio yn nhywyllwch yr ogof – ond manteisiodd Piper ar y cyfle i grwydro'r ardal gan ddilyn tywyslyfr *Travellers Guide to North Wales* gan Murray *Travellers Guide to North Wales*. Dyma Piper hefyd yn cael gafael ar gopi llawn lluniau o *Cambria Depicta* gan Edward Pugh, a gyhoeddwyd gyntaf ym 1816. Treuliodd Edward Pugh ei fywyd yn ysgrifennu ac yn darlunio *Cambria Depicta*. Roedd yn Gymro Cymraeg o Ruthun, ac yn dilyn llwybrau'r twristiaid gan siarad gyda chymaint o bobl â phosibl. Caiff *Cambria Depicta* ei ystyried fel cofnod gorau'r cyfnod o ogledd Cymru.

Teithiodd John Piper drwy ogledd Cymru yn cymharu printiau hanesyddol Edward Pugh a'r dirwedd o'i flaen. Fe gynhyrchodd brint yn arddull Edward Pugh hyd yn oed.

## Edward Pugh

1816 | Engrafiadau





## Trawsallt

1939 | Monoteip, 40.6 x 50.8cm



Trawsallt © Ystâd Piper / DACS 2015


## Tywyslyfr i blant, gan blant…

Gall y llyfr fod yn ganllaw i unrhyw beth neu unrhyw le.


Gall fod yn fanwl neu yn fras. Gallwch chi dreulio diwrnod ar un testun penodol, neu dymor cyfan gan dynnu ar nifer o destunau perthnasol.

## Camau cyntaf / Ymchwil

- Gofynnwch i'r disgyblion gasglu esiamplau o dywyslyfrau. Edrychwch ar y llyfrau a meddwl am y wybodaeth. Dewiswch destun ar gyfer tywyslyfr y dosbarth – dalgylch yr ysgol neu gyrchfan dwristiaid gyfagos?
- Crëwch fap meddwl o gynnwys posibl ar gyfer tywyslyfr y dosbarth.




- Dyluniwch dudalen i'r disgyblion ei llenwi. Bydd dalen A4 ar ei hochr yn creu dwy dudalen. Dyma rai esiamplau.





- Rhannwch y tasgau rhwng grwpiau bychan a gofyn i bob disgybl greu tudalen. Mae rhestr o dasgau posibl isod:
  Ymchwilio
  Ysgrifennu
  Darlunio mapiau
  Ysgrifennu cyfarwyddiadau
  Tynnu ffotograffau
  Darlunio
  Cyfweld pobol leol
  Adolygu atyniad lleol
  Creu y clawr

## Y Cyfanwaith

Pan fydd pob tasg wedi gorffen a phob tudalen wedi'i chwblhau, bydd angen creu clawr a thudalen gynnwys. Mae tair ffordd syml o rwymo'r llyfr. Os ydych chi'n defnyddio'r dull cyntaf, cofiwch adael 1cm yn wag ar ochr chwith y dudalen.


Casglwch y tudalennau i gyd at eu gilydd a phlygu clawr A4 o amgylch y cyfan i greu llyfr.





## Rhwymo

Tair ffordd syml o rwymo'r tywyslyfr -


# 1.



Defnyddiwch dyllwr i greu pedwar twll yn y plŷg.





Pwythwch edau drwy'r tyllau gan ddechrau ar y gwaelod. Pan fyddwch chi'n cyrraedd y top, tynnwch yr edau dros y top a phwytho yn ôl i'r gwaelod.




Clymwch y ddau ben ynghyd.

## 2.









## 3.


Plygwch bob tudalen mewn hanner gyda’r ochor wag ar y tu allan.





Rhoch pob tudalen mewn trefn o'r cyntaf i'r olaf.


Gludwch bob ochr wag sydd yn cyffwrdd ei gilydd at ei gilydd.
Glud
Glud


Gludwch y ddwy ochr
Pan mae'r llyfr wedi sychu, rhowch glyd ar ddwy ochr y llyfr a lapiwch y clawr o'i gwmpas.
Glud